

Cyngor Cymuned Llandwrog – Adroddiad Blynyddol 2022-23



Gair gan y Cadeirydd,

Cynghorydd Gwyn Owen Jones

- ▶ Mae'n bleser gennyf yma gael cyflwyno adroddiad gan y Cyngor am ei weinyddiaeth, ei waith a'i gynlluniau yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Blwyddyn brysur eto o ran gweithgareddau i geisio gwella ein ardal er lles y trigolion. Hoffwn gymryd y cyfle yma hefyd i ddiolch i'r holl wirfoddolwyr o fewn y mudiadau a grwpiau lleol sy'n gwneud gwaith rhagorol yn eu cymuned – y mudiadau a'r grwpiau yma yw calon y gymuned, a balch ydy'r Cyngor o allu eu cefnogi ar ffurf rhoddion o leiaf.
- ▶ Bu un newid sylweddol eleni i'r Cyngor - ers cychwyn Cofid yn 2020 bu i'r Cyngor gynnal pob cyfarfod yn rhithiol, ond ym mis Hydref ail ddechreuwyd cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb, a braf oedd gallu gwneud hynny hefyd. Mi fydd y gallu i gynnal cyfarfodydd rhithiol, yn enwedig rhai pwyllgorau, yn parhau yn ddewis hefyd.
- ▶ Yn ogystal eleni sefydlwyd Pwyllgor newydd i sefydlu trefniadau pendant i'r Cyngor i'r dyfodol o ran rôl y Clerc, a'r Swyddog Ariannol – a hefyd i fod yn gefnogaeth ac yn bwynt cyswllt i'r ddwy swydd yn y dyfodol.
- ▶ Cymeraf y cyfle yma felly i ddiolch i'n Clerc a Swyddog Ariannol, David Roberts, sy'n gwneud i waith y Cyngor redeg yn llyfn, ag hefyd diolch i Ann Llwyd am ei gwaith cyfieithu yn ein cyfarfodydd ers peth amser bellach.
- ▶ Yn olaf diolch i'r aelodau eu hunain, a'n dau Gynghorydd Sir, am eu presenoldeb a'u cyfraniad i'r gwaith, a dymunaf yn dda i'r Cadeirydd newydd am y flwyddyn sydd i ddod.

Cyllideb y Cyngor 2022/23

Incwm o'r Praesept **£70,000** £66,000 yn 2021/22

Incwm Ffioedd **£7,661** £3,125 yn 2021/22

Gwariant **£77,975** £63,506 yn 2021/22

Balansau'r Cyngor yn sefyll 31/3/2023 **£24,569**
£24,883 ar 31 Mawrth 2022



Dyled y Cyngor ar 31 Mawrth 2023 **£105,465** £112,653 ar 31 Mawrth

2022 (Tri benthyciad tymor hir: 1. Prynu tir ym Mrynrodyn yn 1996 am £15,500, 2. Gwaith llwybrau mynwentydd yn 2006 £65,000, a 3. Datblygu mynwent Newydd Bryn' rodyn yn 2014 a gostiodd £100,000.



Gwaith eich Cyngor am y flwyddyn 2022/23

Pwnc

- 1) Rheoli Eiddo'r Cyngor a Thiroedd Eraill
- 2) Gweinyddiaeth a Llywodraethiant
- 3) Rhoddion Ariannol i Fudiadau Gwirfoddol
- 4) Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionnydd 2023
- 5) Cynrychioli eich Cymuned
- 6) Partneriaethu a Chyd Weithio
- 7) Ymgysylltu Gyda'r Gymuned
- 8) Ceisiadau Cynllunio
- 9) Gwella Ein Pentrefi a Chefnogi ein Cymuned
- 10) Effaith Twristiaeth a'r Farchnad Dai
- 11) Etholiadau Llywodraeth Leol 5/5/22

1 Rheoli Eiddo'r Cyngor a Thiroedd Eraill



- ▶ Cyflawnwyd rhaglen waith cynhwysfawr ym mynwentydd y plwyf sef mynwentydd Llandwrog, Carmel a Bryn'rodyn.
- ▶ Cynhaliwyd arolygiad o gofeb feini mynwent Llandwrog fel rhan o raglen y Cyngor i gynnal arolygiad treigl o fynwentydd y Cyngor. Gosodwyd diffibriliwr yn Neuadd Pentref Carmel.
- ▶ Yn cynnal pedwar diffibriliwr (Dinas Dinlle a Groeslon). Wedi cyfrannu at gost diffibriliwr i bentref Carmel. Yn y broses ac adnabod safle i osod diffibriliwr ym Mhenfforddalen, Groeslon
- ▶ Wedi llwyddo i gael Cyngor Gwynedd i ariannu a gosod pont newydd dros afon Carrog ar lwybr Collfryn, Bethesda Bach , cynnal asesiad ar ddarn gwlyb llwybr Bryngwyn ac wedi agor llwybr BraichTriGwr Mawr at Gefn Tryfan
- ▶ Yn dilyn proses tendro gwaith cynnal tiroedd y Cyngor bu i Steven Lewis gychwyn ar y gwaith yn Ebrill 2022
- ▶ Yn cynnal 11 lloches bws. Wedi atgyweirio lloches bws Sgwâr Y Groeslon yn dilyn fandaliaeth. Wedi pwyso ar Gyngor Gwynedd i osod camerâu CCTV ar rhai o'r llochesi
- ▶ Yn parhau i gydweithio gyda Chyngor Gwynedd a Chymdeithas y Porwyr ynglŷn a ffensio anghyfreithlon ar dir comin Uwch Gwyrfa.
- ▶ Wedi adnabod, ac wedi torri gwair, nifer o diroedd comin yn y pentrefi i wella delwedd
- ▶ Yn y broses o adnabod lleoliadau i hybu a chynnal bioamrywiaeth yn unol ag Adran 6 o'r Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016
- ▶ Wedi clustnodi arian i wella delwedd pentrefi. Yn cydweithio gyda Chynghorwyr Sir i adnabod lleoliadau yn ein pentrefi i'r Tîm Tacluso Ardal Ni (Cyngor Gwynedd)
- ▶ Prynwyd a gosodwyd offer newydd (goliau) yng nhae pel-droed Y Fron.
- ▶ Wedi cynnal rhwydwaith eang o lwybrau cyhoeddus trwy gydol Y Gwanawyn a'r Haf.
- ▶ Y Cyngor wedi gwella delwedd y pentrefi trwy ariannu rhaglen gynhwysfawr i dorri gwair nifer o diroedd comin yng nghanol pentrefi Y Fron , Carmel. Y Groeslon a Llandwrog
- ▶ Cynhaliwyd 14 o gladdedigaeth yn mynwentydd y Cyngor yn y cyfnod

2 Gweinyddiaeth a Llywodraethiant



Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r Cyngor wyneb yn wyneb ers Hydref 2022 hynny yn dilyn cyfarfodydd fidio ers Ebrill 2020. Mae'r Cyngor yn cyhoeddi cofnodion pob cyfarfod ar ei wefan oddi fewn 7 diwrnod i'r cyfarfodydd.

Mabwysiadwyd Cynllun Hyfforddiant i Gynghorwyr a Staff yn unol a gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2021. Yn ystod y flwyddyn bu i 6 cynghorydd a staff fynychu 10 cwrs rhithiol

Penodwyd Cyngor Gwynedd fel Archwilwyr Mewnol y Cyngor am 2022/23

Adolygwyd anghenion yswiriant y Cyngor . Bwriedir cynnal arolygiad o weithdrefn llywodraethiant y Cyngor trwy ddefnyddio "toolkit" Un Llais Cymru

Sefydlwyd Panel Llywio i gefnogi llwyth gwaith y Rheolwr, gan fod gwaith gweinyddol y Cyngor yn cynyddu. Y Pwyllgor fydd Rheolwr Llinell y Rheolwr. Rhannwyd swydd y Rheolwr yn ddau, sef yr elfen gyllidol , Y Swyddog Ariannol Cyfrifol, a'r elfen weinyddol. Mabwysiadwyd cytundeb cyflogaeth newydd.

Talwyd lwfans presenoldeb o £10 i rai aelodau fynychu cyfarfodydd, ynghyd a lwfans treuliau blyneddol statudol o £150. Talwyd cyfanswm o £1,680 ar gyfer ffi presenoldeb a £1,313 ar gyfer y treuliau.

Ers Ebrill 2022 mae'r Cyngor yn rhoi cyfle rhesymol i aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol yn ei gyfarfodydd gyflwyno sylwadau am unrhyw fater a drafodir yn y cyfarfod. Mae'r Cyngor yn darparu gwasaneth cyfieithu ym mhob cyfarfod o'r Cyngor llawn

3 Rhoddion i Fudiadau Gwirfoddol

Talwyd cyfanswm o **£8,890** i **23** mudiad yn
amrywio o £55 i £1,200

Rhoddwyd cyfraniad o £500 i Canolfan Y Fron i ddarparu cinio i
drigolion y pentref dros gyfnod yr Argyfwng Costau Byw.



4 Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd 2023

- ▶ Derbyniwyd gohebiaeth gan Swyddfa'r Eisteddfod yn cadarnhau'r bwriad i gynnal yr Eisteddfod yn 2023 gan fod Eisteddfod 2021 wedi ei gohirio
- ▶ Rhoddwyd targed gan Swyddfa'r Eisteddfod Genedlaethol i'n cymuned gyfrannu swm o **£5,000** fel rhan o darged ehangach o £400,000 i gynnal yr Eisteddfod.
- ▶ Cyn y cyfnod clo sefydlwyd Pwyllgor Apêl gan y Cyngor Cymuned oedd yn annibynol o'r Cyngor i drefnu gweithgareddau i godi'r arian.
- ▶ Disgwylid Swyddfa'r Eisteddfod ydy fod pob cymuned yn creu awyrgylch o fwrlwm a digwyddiadau am gyfnod o ddeunaw mis fydd yn codi ymwybyddiaeth pawb yn ein cymuned fod yr Eisteddfod yn dod i'r ardal
- ▶ 'Roedd y Cyngor wedi clustnodi £3,000 gyda'r disgwyl i'r Pwyllgor Apêl gynnal gweithgareddau i ddarganfod y gweddill.
- ▶ Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau gan y Pwyllgor Apêl, ac mae'r gweithgareddau yn parhau . Mae'r Pwyllgor wedi llwyddo i gyrraedd y targed gyda' cyfrnaid o £1,000 yn ung gan y Cyngor Cymuned
- ▶ Mae ymdrechion aelodau'r Pwyllgor Apêl i gasglu swm mor fawr, mewn hinaswdd ariannol anodd, i'w llongyfarch.



EISTEDDFOD
Llyn ac Eifionydd
31 Gorffennaf – 7 Awst 2021

5 Cynrychioli Eich Cymuned

*Mae aelodau'r Cyngor
a'r Rheolwr yn
cynrychioli y gymuned
ar y Grwpiau canlynol.
Ni chynhaliodd pob
grwp gyfarfodydd yn
2022/23 oherwydd y
pandemig.*

- ▶ Grŵp Cyswllt Chwareli Moel Tryfan ac Alexandra
- ▶ .Pwyllgor Ardal Arfon / Dwyfor Un Llais Cymru
- ▶ Ardal Ni
- ▶ Aelodau'r Cyngor hefyd yn aelodau gweithgar o Ganolfan y Fron, Neuadd Carmel, Neuadd Groeslon, Tyn Llan Cyf, Merched y Wawr, Pwyllgor Apêl Eisteddfod
- ▶ Yn cydweithio gyda Chyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru ar Brosiect Gwerthuso Perygl Llifogydd o Ddinas Dinlle i Fae'r Foryd:

6 Partneriaethu a Chyd-weithio

Parhau i fod mewn partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd i gadw toiled y Marine, Dinas Dinlle ar agor trwy fuddsoddiad blynyddol o £4,000.


Parhau i bartneriaethu gyda Phlwyf Eglwys Llanwnda a Llandwrog i dorri gwair mynwent Eglwys Sant Tomos, Y Groeslon

Yn cydweithio, ac un o'r partneriaid blaenllaw, gyda Chyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru ar Strategaeth Llifogydd Dinas Dinlle a'r Foryd

Yn cydweithio gyda Phwyllgorau Pentrefi / y gymuned i adnabod iiroedd comin sydd angen eu cynnal

Yn cydweithio gyda Cyngorwyr Llio Elenid ac Arwyn Herald ar sawl mater er budd y gymuned.





Gysylltu Gyda'r Gymuned



- ▶ **Gwefan** – www.cyngorcymunedllandwrog.cymru. Nifer “hits” yn y flwyddyn yn 813,456. Cofnodion pob cyfarfod o'r Cyngor yn ymddangos ar y wefan o fewn 7 diwnod o ddyddiad y cyfarfod
- ▶ **Papur Bro** – adroddiad o gofnodion misol y Cyngor yn ymddangos yn Papur Bro Lleu
- ▶ **Cyfyngau Cymdeithasol** – rheoli'r tudalen Facebook y Cyngor gan AquaMarketing. Mae'r Cyngor yn gweithio at gynyddu'r niferoedd sydd yn dilyn y dudalen ac yn croesawu unrhyw sylwadau
- ▶ **Hysbysfyrddau'r Pentrefi**
- ▶ **Cyfranogiad y Cyhoedd** – rhoddir cyfle rhesymol i aelodau'r cyhoedd drafod unrhyw fater ar gychwyn pob cyfarfod. Darpe gwasanaeth cyfiethu ym mhob cyfarfod

Delwedd

websites that work
gwefannau sy'n gweithio

delwedd.co.uk | post@delwedd.co.uk | 01286 685 227

8 Cynllunio



- ▶ Nifer ceisiadau cynllunio yn ein Cymuned a fu gerbron y Cyngor am sylwadau yn y cyfnod

▶ **51**



9 Gwaith yn Ein Pentrefi..... engreiffitiau o'r gwaith wnaed gan eich Cyngor yn ystod y flwyddyn



- ▶ Cyflawni gwaith ar waliau mynwent Bryn'rodyn a pheintio ffens y fynwent
- ▶ Pwysu ar Gyngor Gwynedd i wneud gwelliannau i'r gwaith ar groesfan A499 i Ddinas Dinlle
- ▶ Pwysu ar Gyngor Gwynedd i ddatrys y broblem o wastraff carthffosiaeth yn Clwt Foty
- ▶ Cefnogi criw o'r Groeslon yn eu ymdrech i gael arwydd Croeso i Groeslon ar y gylchfan.
- ▶ Gosod offer newydd yng nghae pêl-droed Y Fron
- ▶ Torri gwair ar diroedd comin yn y pentrefi i wella delwedd
- ▶ Adnabod lleoliadau yn y gymuned sydd angen gwaith gan Tîm Ardal Ni Cyngor Gwynedd
- ▶ Gohebu ar sawl achlysur a Chyngor Gwynedd ynglŷn â'r ffens yn Reifl Uchaf, Llandwrog Uchaf
- ▶ Pwysu ar berchennog Chwarel Y Fron i osod ffens newydd ger Twll Braich
- ▶ Adnewyddu lloches bws newydd yn sgwâr Y Groeslon yn dilyn fandaliaeth
- ▶ Cyfraniad ariannol i gynnal cinio am ddim i drigolion y gymuned yng Nghanolfan Y Fron
- ▶ Yn cynnal trafodaeth gydag Adran ac Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd ynglŷn a gwelliannau a fwriedir eu gwneud, ond sydd yn codi ffi am barcio yn Ninas Dinlle
- ▶ Yn cydweithio gyda Chynghorwyr Sir ar faterion megis parcio ar linellau melyn yn Y Groeslon, goryrru yng Ngharmel, hawl marchogaeth ar hyd Lôn Eifion
- ▶ Yn cefnogi gwrthwynebiad trigolion Y Fron i'r bwriad o agor gwersyll i motorhomes heb hawl cynllunio




10 Twristiaeth a'r Farchnad Dai

- ▶ Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd y diwydiant twristiaeth i economi Gwynedd. Mae'r diwydiant yn cynnal nifer o swyddi yng Nghymuned Llandwrog. Fodd bynnag rhaid cydnabod fod ail dai a tai gwag yn broblem yn yr ardal ac fod prinder tai fforddiadwy yn broblem enfawr.
- ▶ Yn partneriaethu gyda Chyngor Gwynedd ac yn cyfrannu £4,000 i gadw toiled y Marine, Dinas Dinlle ar agor.
- ▶ Yn cydweithio gyda Chyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru ar Strategaeth Llifogydd Dinas Dinlle a'r Foryd
- ▶ Yn cynnal trafodaethau gyda Swyddogion Cyngor Gwynedd ynglyn a datblygiadau ar draeth Dinas Dinlle a bwriad Cyngor Gwynedd i godi ffi am barcio



11 Argyfwng Costau Byw

- ▶ Rhoddwyd £500 i Ganolfan Y Fron i ddarparu cinio i breswylwyr Y Fron dros gyfnod yr Argyfwng Costau Byw.
- ▶ Bydd y Cyngor yn parhau i gefnogi ein pobol fregus trwy gydol yr argyfwng a chefnogi unrhyw ymgyrch gan wirfoddolwyr i gefnogi y rhai bregus



12

Etholiadau 5 Mai 2022

- ▶ **Cynhaliwyd etholiadau Llywodraeth Leol ar Fai 5ed, 2022** - yn cynnwys etholiadau i Gyngor Gwynedd ac etholiadau i'r Cyngorau Cymuned. Bydd cynghorwyr etholedig yn gwasanaethu am gyfnod o 5 mlynedd, tan Mai 2027.
- ▶ Dyma'r etholiadau llywodraeth leol cyntaf i gael eu cynnal ers cyflwyno deddfwriaeth newydd yng Nghymru sy'n galluogi i bawb sydd wedi cofrestru, sy'n byw yn gyfreithiol yng Nghymru ac sydd o leiaf 16 oed i bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais.
- ▶ Dyma'r etholiadau cyntaf hefyd i gael eu gweinyddu ar y trefniadau ffiniau newydd.
- ▶ Etholwyd Cyngorydd Llio Elenid i gynrychioli Ward Groeslon.
- ▶ Etholwyd Cyngorydd Arwyn Herald i gynrychioli Ward Tryfan

Rhaglen Waith 2023/24



- ▶ Adnabod lleoliadau i hybu a chynnal bioamrywiaeth yn unol â Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 (mae'n ddyletswydd ar bob Cyngor Tref a Chymuned i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau)
- ▶ Cynnal archwiliad o gerrig beddi mynwent Bryn'rodyn
- ▶ Parhau i wella delwedd pentrefi trwy gydweithio gyda Chynghorwyr Sir a Thîm Tacluso Ardal Ni
- ▶ Cynnal asesiad o risgiau'r Cyngor gan ddefnyddio "toolkit" Un Llais Cymru
- ▶ Trafod a chyd weithio gyda Chyngor Gwynedd ar gyfer gwelliannau i draeth Dinas Dinlle
- ▶ Adnabod safleoedd addas ar gyfer gosod diffibriliwyr
- ▶ Cefnogi'r gymuned dros gyfnod Argyfwng Costau Byw
- ▶ Cyd weithio a chymryd rhan flaenllaw gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu strategaeth llifogydd Dinas Dinlle
- ▶ Adnabod safle addas i osod hysbysfwrdd i bentref Carmel
- ▶ Dosbarthu rhoddion ariannol i fudiadau gwirfoddol oddi fewn a thu hwnt i'r gymuned

Ystadegau 2022/23

- ▶ Nifer cyfarfodydd o'r Cyngor Llawn **12**
- ▶ Nifer Cyfarfodydd Pwyllgorau/Paneli/Gweithgorau **14**
- ▶ Nifer y cwynion a dderbyniwyd **dim**
- ▶ Aelodau Newydd yn y cyfnod **1**
- ▶ Ymddiswyddiadau yn y cyfnod **1**
- ▶ Nifer aelodau wnaeth hawlio y lwfans blynyddol **10**
- ▶ Nifer aelodau wnaeth hawlio lwfans presenoldeb **11**
- ▶ Nifer claddedigaethau yn ei mynwetydd **14**
- ▶ Nifer hits ar ein gwefan **813,456**



Eich Cynrychiolwyr – Ward Carmel

nifer seddau **3**

- ▶ **Cynghorydd Alan Patterson** Bryn Llifon, Carmel, LL54 7RW
Rhif ffôn 01286 881843 neu 07989 906704 **Yn aelod ers**
Hydref 1995
alanpatterson@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **Cynghorydd Bryn Williams** Dafarn Dywyrch, Llandwrog
Uchaf, LL54 7RA Rhif ffôn 01286 831378 neu 07583
517852. **Yn aelod ers Ebrill 1997**
brynwilliams@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **Cynghorydd. Alun Parrington** 9 Carmel Terrace, Carmel
LL54 7RP Rhif ffôn 07833 252689 **Yn aelod ers Ionawr**
2021
alunparrington@cyngorcymunedllandwrog.cymru

Eich Cynrychiolwyr – Ward Y Fron

nifer seddau **2**

- ▶ **Cynghorydd Gwyn Owen Jones** Bodwyn, Y Fron, LL54 7RB Rhif ffôn 01286 881138 neu 07903 333260. **Yn aelod ers Chwefror 1997**
wynowenjones@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **Cynghorydd Edward John Willcox** Noddfa, Y Fron LL54 7BB Rhif ffôn 07919 914483 **Yn aelod ers Mai 2017**
eddiwillcox@cyngorcymunedllandwrog.cymru

Eich Cynrychiolwyr – Ward Y Groeslon – nifer seddau 6

- ▶ **Cynghorydd Alun Wyn Jones** Hafan, Rhes Grugan, Y
Groeslon LL54 7TD Rhif ffôn 01286 830911 **Yn aelod ers**
Ionawr 1986 -
alunwynjones@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **Cynghorydd Hywel John Owen** Sycharth, Cae Sarn, Y
Groeslon LL54 7TW Rhif ffôn 01286 830066 neu 07979
985149 **Yn aelod ers Medi 1983.**
hywelowen@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **Cynghorydd David C Davies** Bodarfryn, Dolydd, Y
Groeslon LL54 7EF Rhif ffôn 07836 325195 **Yn aelod ers**
Mehefin 2017
davidcdavies@cyngorcymunedllandwrog.cymru

Eich Cynrychiolwyr – Ward Y Groeslon

- ▶ **Cynghorydd Heulwen Jones-Griffiths** Penbrynrrhos, Y Groeslon LL54 7DL. Rhif ffôn 07788 570106 **Yn aelod ers Chwefror 2021**
heulwenjonesgriffiths@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **Cynghorydd Bethan Mair Williams**, Arddol, Y Groeslon LL54 7EF Rhif ffôn 07879 338023 **Yn aelod ers Mai 2023**
bethanmairwilliams@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **Cynghorydd Sion Hywyn Griffiths** Parlwyn, 2 Rhes Grugan, Y Groeslon LL54 7TD Rhif ffôn **Etholwyd i'r Cyngor 5 Mai 2022**
sionhywyngriffiths@cyngorcymunedllandwrog.cymru

Eich Cynrychiolwyr – Ward

Llandwrog/Dinas Dinlle nifer seddau **3**

- ▶ **Cynghorydd Clive Bayley** Ty Clen, 1 Gernant, Bethesda Bach LL54 5SJ Rhif ffôn 07967 794002 **Yn aelod ers Mehefin 2017**
clivebayley@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **Cynghorydd Dyfed Williams** Bwthyn Henryd. Llandwrog LL54 5TN Rhif ffôn 01286 831290 neu 07772 819189 **Yn aelod ers Mai 2012**
dyfedwilliams@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **Cynghorydd Marnel Pritchard** Llain yr Eglwys, Llandwrog LL54 5TA Rhif ffôn 01286 830993 **Yn aelod ers Chwefror 2020**
marnelpritchard@cyngorcymunedllandwrog.cymru

Cysylltu gyda eich Cyngor

Rheolwr Gweinyddol a Chyllid y Cyngor

- ▶ David Roberts, Bryn Meurig, Carmel , Caernarfon
Gwynedd LL54 7DS

- ▶ Rhif Ffôn **01286 881920** neu **07796 024288**

- ▶ E-bost [**rheolwr@cyngorcymunedllandwrog.cymru**](mailto:rheolwr@cyngorcymunedllandwrog.cymru)

- ▶ Gwefan y Cyngor

www.cyngorcymunedllandwrog.cymru

- ▶ Oriau Busnes y Cyngor – cytundeb **rhan amser** sydd gan y Rheolwr ond gellir cysylltu gyda ef naill a i trwy e-bost, dros y ffôn, llythyru neu gartref unrhyw adeg. Cofiwch y gellir cysylltu gyda eich Cynghorwyr Cymuned ac hefyd eich Cynghorydd Sirol



Eich Cynghorwyr Sir

- ▶ Cynghorydd Eric Jones oedd yr Aelod etholedig dros Ward Y Groeslon yn ystod 2021/22. Ers etholiadau Llywodareth Leol 5 Mai 2022 cynrychiolir Ward Y Groeslon gan **Llio Elenid Owen** fydd yn gwasanaethu trigolion Y Groeslon, Llandwrog a Dinas Dinlle

Ffôn 07887 956253

ebost cynghorydd.llioelenidowen@gwynedd.llyw.cymru

- ▶ Cynghorydd Dilwyn Lloyd oedd yr Aelod etholedig dros Ward Talysarn yn ystod 2021/22. Ers etholiadau Llwodraeth Leol 5 Mai 2022 cynrychiolir Ward newydd Tryfan gan **Arwyn Herald Roberts** Cartrefle, Rhosgadfan fydd yn gwasanaethu trigolion Y Fron a Carmel

Ffôn 07831 448216

ebost cynghorydd.arwynherald@gwynedd.llyw.cymru

